

National Audit of Care at the End of Life (NACEL) Offeryn Cleifion a Gofalwyr

Pecyn Gwybodaeth Cam 2

Chwefror 2026



National Audit of Care
at the End of Life

Auditing last days of life in hospitals



Ynghylch NACEL

- Mae NACEL yn archwiliad cenedlaethol o ansawdd a chanlyniadau'r gofal a brofir gan yr oedolyn sy'n marw (18+) a'r rhai sy'n bwysig iddynt.
- Mae NACEL yn edrych ar yr arhosiad olaf yn yr ysbyty sy'n arwain at farwolaeth mewn lleoliad ysbyty yng Nghymru, Lloegr a Jersey.
- Caiff data ei gasglu o nodiadau cleifion, arolwg profedigaeth, arolwg staff ac arolwg ysbyty.
- Mae dros 100 o fetrigau y mae NACEL yn eu casglu.
- Mae NHS Benchmarking Network wedi cyflwyno'r archwiliad ers 2017.
- Comisiynir yr archwiliad gan y Healthcare Quality Improvement Partnership (HQIP) ar ran NHS England a Llywodraeth Cymru a Jersey.



National Audit of Care
at the End of Life
Auditing last days of life in hospitals




HQIP



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

NHS
England

 **Government of**
JERSEY



Pwysigrwydd data sydd ar gael i'r cyhoedd

- Caniatau tryloywder gofal – fel y gall y cyhoedd weld sut beth yw gofal mewn ysbytai sy'n agos atynt.
- Cynyddu'r momentwm wrth wella gofal diwedd oes.
- Dal sefydliadau'r GIG i gyfrif – efallai nad ysbyty yn unig yw hyn ond o bosibl ei gorff comisiynu.
- Lleihau camwybodaeth gyhoeddus.
- Cefnogi ymchwil ym maes gofal diwedd oes.
- Grymuso cleifion/y cyhoedd.
- Cynyddu ymgysylltiad yn ehangach.



Ynghylch yr Offeryn Cleifion a Gofalwyr

Y dasg: Datblygu llwyfan rhyngweithiol, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn dangos data NACEL 2024.

- Lansiwyd Cam 1 yr offeryn ym mis Awst 2025 yn dilyn ymgynghoriad â 10 o berthnasau mewn profedigaeth.
- Gellir ei ganfod ar wefan NACEL yma: www.nacel.nhs.uk/patients-and-carers-data
- Y prif benderfyniadau a wnaed yng Ngham 1 oedd:
 - Cynnwys data am y 5 maes canlynol:
 1. Ysbytai â gofal lliniarol arbenigol wyneb yn wyneb (8 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos)
 2. Cafodd y person oedd yn marw ddigon o leddfu poen
 3. Graddiwyd gofal a chymorth yr ysbyty fel rhagorol neu dda
 4. Roedd y person oedd yn marw wedi trafod cynllunio gofal a chymorth personol
 5. Aseswyd anghenion ysbrydol/crefyddol/diwylliannol teuluoedd ac eraill
- Gwneud data ar lefel ranbarthol a lefel gwlad ar gael (yn hytrach na data ar lefel ysbyty).
- Bydd Cam 2 yr offeryn yn cael ei lansio ym mis Awst 2026, gan ddangos y data ar lefel ysbyty unigol, yn ogystal â lefel ranbarthol a lefel gwlad.



Perthnasedd ac amseru – Lloegr yn unig


- Rhoddodd Llywodraeth y DU flaenoriaeth i Ofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes ar gyfer trawsnewid cyflym fel rhan o'i Chynllun 10 Mlynedd.
- Mae Fframwaith Systemau Modern Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes (MSF) yn cael ei arwain gan NHSE ac mae'n benodol i Loegr.
Mae Fframweithiau Gwasanaeth Modern (MSFs) yn fecanwaith allweddol [NHS England](#) o dan y Cynllun Iechyd 10 Mlynedd i foderneiddio gofal, lleihau anghydraddoldeb a gwella cynhyrchiant.
- Mae tîm NACEL wedi bod yn rhan o waith MSF ac yn parhau i weithio'n agos gyda NHSE gan sicrhau aliniad (lle bo'n bosibl) rhwng yr Offeryn Cleifion a Gofalwyr a'r MSF.



Camau a gymerwyd i gwmpasu Offeryn Cleifion a Gofalwyr NACEL

Cam 1

- Gwahoddwyd 10 o bobl mewn profedigaeth i gymryd rhan. Fe'u recriwtiwyd mewn amrywiaeth o ffyrdd.
- Cawsant enghraifft o wefan gydag arolwg yn gofyn am adborth ar ddefnyddioldeb a chynnwys.
- Adolygwyd eu hadborth a gwahoddwyd pump o gyfranogwyr i fynychu grŵp ffocws.
- Cynhaliwyd y grŵp ffocws i drafod cynnwys a defnyddioldeb.
- Crewyd safle prawf.
- Llofnododd Grŵp Llywio NACEL yr offeryn ar 18 Mehefin 2025.
- Lansiwyd Cam 1 yr offeryn ym mis Awst 2025.
 - www.nacel.nhs.uk/patients-and-carers-data




Camau a gymerwyd i gwmpasu Offeryn Cleifion a Gofalwyr NACEL

Cam 2

- Nominodd NHS England, GIG Cymru a Jersey amrywiaeth o weithwyr proffesiynol o rolau clinigol, anghlinigol ac arweinyddiaeth. O'r 35 a enwebwyd, dewiswyd 22 o weithwyr proffesiynol i fynychu 2 grŵp tasg a gorffen.
- Cynhaliwyd grwpiau Tasg a Gorffen ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2025. Y prif allbynnau o'r cyfarfodydd hyn oedd:
 - Nodwyd y 4 risg uchaf a'r mesurau lliniaru sy'n gysylltiedig â'r offeryn
 - Cynllun cyfathrebu arfaethedig
 - Ystyriwyd rhanddeiliaid a lluniwyd rhestr o gysylltiadau allweddol
 - Argymhelliad i gynnal cyfarfod pellach gyda'r cyfranogwyr o Gam 1 a gweithwyr proffesiynol o'r grwpiau tasg a gorffen – 'grŵp cyd-gynhyrchu'
 - Cynhaliwyd cyfarfod grŵp cyd-gynhyrchu ym mis Chwefror 2026. Gwahoddwyd pum cydweithiwr o'r grŵp Tasg a Gorffen a phum perthynas mewn profedigaeth a oedd wedi bod yn rhan o ddatblygu Cam 1.
- Dosbarthwyd y cynllun cyfathrebu i NHS England, GIG Cymru a Jersey.
- Cyflawnodd y grŵp cyd-gynhyrchu 3 nod:
 - Adolygu cynnwys a dyluniad yr offeryn
 - Llunio mecanweithiau adborth
 - Adnoddau a gwybodaeth ategol wedi'u hymgorffori ar y wefan
- Ailgynlluniwyd Cam 2 ac mae disgwyl iddo gael ei lofnodi gan Grŵp Llywio NACEL ym mis Chwefror 2026.



Offeryn Cleifion a Gofalwyr - Cyfnod 1 (cyfredol)



Dyma ddelwedd o'r offeryn cyfredol (Cyfnod 1).

Ar gael [yma](#)

Ym mis Awst 2026, bydd y cyhoedd yn gallu dewis ysbytai unigol



Gwybodaeth Bellach

🌿 Am wybod mwy? Cofrestrwch ar gyfer y sesiwn galw heibio sydd ar ddod a fydd yn cael ei chynnal ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2026:

- www.nacel.nhs.uk/events

🌿 Cysylltwch â Thîm Cymorth NACEL:

- E-bost – nhsbn.nacelsupport@nhs.net
- Ffôn – 0161 521 0866

